# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mr Richard Parry Jones, MA.
Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro – Interim Managing Director

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD 0 GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **CYD-BWYLLGOR ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG (MÔN & GWYNEDD)** | **SPECIAL EDUCATIONOL NEEDS JOINT-COMMITTEE (MÔN & GWYNEDD)** |
| **DYDD GWENER, 14 MAWRTH 2014 am 10.30 o'r gloch y bore** | **FRIDAY, 14 MARCH, 2014 at 10:30 a.m.** |
| **YSTAFELL GLYDER FAWR, SWYDDFEYDD PENRALLT, CAERNARFON** | **GLYDER FAWR ROOM, PENRALLT OFFICES, CAERNARFON** |
| **Swyddog Pwyllgor    Ann Holmes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**AELODAU/MEMBERS:**

Cynghorwyr/Councillors:

**CYNGOR GWYNEDD COUNCIL**

Annwen Hughes, Elin Walker Jones, Beth Lawton, Peter Read, Caerwyn Roberts (Is-Gadeirydd/Vice-Chair), Gareth Thomas, Eirwyn Williams

**CYNGOR SIR YNYS MÔN/ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL**

Jeff Evans, Derlwyn R.Hughes, Trefor Lloyd Hughes, Llinos M.Huws, G.O.Jones (Cadeirydd/Chair), R.Meirion Jones, R.Llewelyn Jones

**YR EGLWYS/THE CHURCH**

Y Parch.Rev.Lloyd Jones (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales)
Gwag/Vacant (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)
Mr Rheinallt Thomas (Eglwysi Rhyddion/Free Churches)

**AELOD DI-BLEIDLAIS/NON-VOTING MEMBER**

Cynghorydd/Councillor Ieuan Williams (Aelod Portffolio Addysg Ynys Môn/Isle of Anglesey Portfolio Member for Education)

# R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2** **COFNODION CYFARFOD 10 RHAGFYR, 2013** (Tudalennau 1 - 6)

Bydd cofndion cyfarfod blaenorol y Cyd-Bwyllgor AAA a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr, 2013 yn cael eu cyflwyno i'w cadarnhau.

**3** **YR UNED DDARPARU AAA**

Cyflwyno adroddiad ar weithgareddau'r Uned Ddarparu AAA yn ystod tymor y Gaeaf, 2013.

**4** **MATERION CYLLIDOL**

Adrodd ar Gyllideb 2014/15.

**5** **CYFARFODYDD 2014/15**

10:30 y bore, dydd Gwener, 4 Gorffennaf, 2014

2:00 y prynhawn, dydd Gwener, 19 Medi, 2014 (Cyfarfod Cyfrifon)

10:30 y bore dydd Gwener, 21 Tachwedd, 2014

10:30 y bore, dydd Gwener, 13 Mawrth, 2015

# CYD-BWYLLGOR ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr, 2013

DRAFT

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd G.O.Jones (Cyngor Sir Ynys Môn) (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Caerwyn Roberts (Cyngor Gwynedd (Is-Gadeirydd) |
| | **Cyngor Gwynedd** |
| | Cynghorwyr Beth Lawton, Peter Read, Eirwyn Williams |
| | **Cyngor Sir Ynys Môn** |
| | Cynghorwyr Jeff Evans, Derlwyn Hughes, R.Llewelyn Jones |
| | Cynghorydd Ieuan Williams (Aelod Portffolio Addysg Cyngor Sir Ynys Môn) (Aelod D-Bleidlais) |
| | **Yr Eglwys** |
| | Mr Rheinallt Thomas (Eglwysi Rhyddion) |
| **WRTH LAW**: | Mr Gareth Payne (Prif Seicolegydd Addysg)<br>Mr Dewi Jones (Pennaeth Addysg Cyngor Gwynedd)<br>Dr Gwynne Jones (Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Ynys Môn)<br>Mrs Mair Read (Swyddog Addysg AAA Ynys Môn)<br>Mr Kathy Bell (Uwch Gyfrifydd Addysg Cyngor Gwynedd)<br>Ann Holmes (Swyddog Pwyllgor ) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Cynghorwyr Annwen Hughes, Elin Walker Jones, Gareth Thomas (Cyngor Gwynedd), Trefor Lloyd Hughes, Llinos Huws, R.Meirion Jones (Cyngor Sir Ynys Môn), Mrs Delyth Molyneux (Uwch Reolwr Disgyblion a Chynhwysiad Cyngor Gwynedd) |

---

### 1. DATGAN DIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

### 2. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Cyd-Bwyllgor a gynhaliwyd ar 20 Medi, 2013, ac fe'u cadarnhawyd fel rhai cywir.

### 3. UNED DDARPARU AAA

3.1 Cyflwynwyd adroddiad y Prif Seicolegydd Addysg yn amlinellu gweithgareddau'r Uned Ddarparu AAA yn ystod tymor yr Haf, 2013.

Cyfeiriodd y Prif Seicolegydd Addysg at y prif ystyriaethau'n codi o'r adroddiad fel a ganlyn –

- Newidiadau ymhlith staff sy'n gyfrifol am weinyddu prosesau asesu ac adolygu'r trefniadau a wnaed i gyflenwi'r gwaith. Nodir y penodwyd i swydd yr Uwch Swyddog Gweinyddol am gyfnod secondiad deilydd parhaol y swydd.
- Parthed y Gwasanaeth Athrawon Arbenigol cafwyd trafodaethau ar ddechrau'r tymor i ystyried cyflogi athrawon newydd am ei bod yn ymddangos nad oedd modd cwrdd ag anghenion y cyfan

o'r plant ar sail maint y tîm presennol a hefyd oherwydd bod nifer o'r athrawon yn agosáu at oed ymddeoliad. Cynhaliwyd ymarferiad ym mis Mai a ddangosodd pa mor anodd ydyw i'r athrawon sicrhau eu bod yn cwrdd ag anghenion addysgol yr holl blant. Er enghraifft, mae'r nifer o blant sy'n hysbys i'r Gwasanaeth Iaith a Chyfathrebu yn golygu byddai gofyn i athrawes llawn amser yn y maes weithio gyda 376 o blant yn flynyddol ac yn gyffelyb, byddai angen i athrawes yn y gwasanaeth anawsterau meddygol/corfforol ymwneud â 202 o blant yn flynyddol. Er nad yw'r niferoedd cyfuwch yn y gwasanaethau Clyw a Golwg, mae yna leiafrif pwysig o blant sydd angen mewnbwn arbenigol wythnosol gan athrawes i ddatblygu eu sgiliau arwyddo a Braille. Oherwydd yr anawsterau wrth recriwtio athrawon cymwys Cymraeg, yn hanesyddol mabwysidawyd trefn o gyflogi athrawon dan hyfforddiant gan drefnu iddynt wedyn fynychu cyrsiau hyfforddiant tra mewn cyflogaeth.

- Bod patrwm tebyg i'w weld yn y Gwasanaeth Seicoleg Addysg gyda'r gwasanaeth yn rhedeg yn ystod tymor yr Haf gyda nifer sylweddol yn llai o seicolegwyr. Llwyddwyd i gynnig gwasanaeth i bob ysgol ond bu raid lleihau ar nifer yr ymweliadau a gynhaliwyd. O ganlyniad roedd yn siomedig ond nid yn annisgwyl na chafwyd ymateb mor ffafriol â'r llynedd i gwestiynau'r holiadur ansawdd a gylchredwyd i'r ysgolion yn ôl yr arfer. Bu i 78% ddatgan eu bod yn fodlon neu'n falch o'r gwasanaeth a dderbyniwyd o gymharu ag 85% y llynedd ac 83% yn y blynyddoedd cynt. Roedd nifer yr ysgolion wedi sgorio'r gwasanaeth yn is ar y sail nad oeddent yn gweld y seicolegydd mor aml ac nid oherwydd unrhyw anfodlonrwydd gyda safon y gwaith. Roedd 46% o'r ysgolion yn hapus gyda maint yr amser a ddynodwyd iddynt.Yng ngoleuni'r adborth hwn hysbysebwyd am seicolegwyr newydd am yr ail dro ond eto, ni chafwyd yr un cais gan seicolegydd cymwys gyda'r gallu i siarad Cymraeg. Dros y blynyddoedd, mae'r gwasanaeth wedi cyflogi seicolegwyr dan hyffoddiant ac wedi trefnu iddynt fynd ar gyrsiau wedyn. Ar hyn o bryd mae 7 o'r 9 seicolegydd o fewn y gwasanaeth yn seicolewgyr dan hyfforddiant. Cyflogwyd tair seicolegwraig gynorthwyol ar ddiwedd y tymor er mwyn lleihau'r baich a gyda golwg arnynt fynychu cyrsiau hyfforddiant o Fedi, 2014. Mae dwy ohnynt wedi dechrau gweithio i'r Gwasanaeth Seicoleg Addysgol a disgwylir bydd y trydydd yn dechrau yn Ionawr, 2014.

3.2 Cyflwynwyd gohebiaeth yr arfaethir ei anfon at Aelod Cynulliad Ynys Môn ac Aelod Seneddol Ynys Môn i ymorol eu cymorth a'u cefnogaeth i fynd i'r afael â'r anawsterau trefnu hyfforddiant i seicolegwyr addysg yng Nghymru sydd ag oblygiadau wedyn i'r drefn recriwtio Seicolegwyr Addysg cymwysiedig Cymraeg a hefyd i ddarpariaeth gwasanaeth seicoleg addysg dwyieithog yn yr ysgolion.

Ystyriodd yr Aelodau y wybodaeth a gyflwynwyd trwy'r adroddiad a'r ohebiaeth ac yn y drafodaeth ddilynol bu iddynt godi'r materion canlynol arni –

- Cyfeiriwyd at y nifer uchel o blant yr oedd yna ddisgwyl i athrawes arbenigol Iaith a Chyfathrebu ymwneud â hwy'n flynddyol a gofynnwyd sut yr oedd y ddwy sir yn cymharu â siroedd eraill yn hyn o beth. At hynny holwyd beth oedd y drefn ar gyfer hyfforddi rhieni sydd angen datblygu eu sgiliau arwyddo.
- O ystyried yr anwawsterau mewn perthynas â recriwtio Seicolegwyr Addysg cymwysiedig sydd hefyd yn siaradwyr Cymraeg, awgrymwyd bod lle i ystyried cyflogi seicolegwyr Saesneg eu hiaith gyntaf a bod ganddynt hwy ofalaeth am ardaloedd megis Caergybi lle nad yw'r Gymraeg yn hanfodol. Gan ei bod yn ymddangos bod 54% o'r ysgolion yn anfodlon gyda lefel y ddarpariaeth, dywedwyd ei fod yn gonsyrn nad yw plant efallai yn derbyn y lefel o gefnogaeth maent ei angen a'i fod yn ymarferol felly i gyflogi seicolegwyr Saesneg a rhoi pob anogaeth iddynt ddysgu Cymraeg.
- Gofynnwyd a oedd pobl ifanc y ddwy sir yn ddigon ymwybodol o seicoleg addysg fel llwybr gyrfaol ac awgrymwyd bod lle i wneud mwy i hyrwyddo'r maes ac i godi ei broffil mewn nosweithiau a sesiynau gyrfaoedd mewn ysgolion.
- Cyfeiriwyd at y ffaith bod nifer o fyfyrwyr yn dilyn cwrs Seicoleg ym Mhrifysgol Bangor ai fod yn bwnc poblogaidd. Gofynnwyd a oedd yna gyswllt rhyngddynt a'r Gwasanaeth Secicoleg Addysg o ran y posibilrwydd o ddarparu profiad gwaith ôl-gymhwyso.
- Awgrymwyd bod yna lunio dadansoddiad o'r bwlch rhwng y ddarpariaeth seicoleg addysg bresennol a'r ddarpariaeth sydd ei hangen a bod yna geisio agor deialog gyda cholegau yn Lloegr sy'n darparu cyrsiau proffesiynol i lacio'r gofyn bod darpar-seicolegwyr sydd wedi'u hyfforddi yn Lloegr yn ymgymryd â phrofiad gwaith mewn awdurdodau addysg neu mewn ysgolion yn Lloegr.
- Gofynnwyd a fyddai'n bosib ceisio ffyrdd amgen o ddatrys y broblem hyfforddi a recriwtio trwy ddefnydd o'r balansau.

Mewn ymateb i'r pwyntiau a godwyd, eglurodd y Swyddogion y sefyllfa fel a ganlyn –

- Bod gan seicolegwyr eu llwyth gwaith penodol ac o edrych ar anghenion ardal Caergybi, tybir nad oes digon o alw i gyfiawnhau swydd llawn amser gogyfer yr ardal honno.Byddai hefyd yn golygu y byddai gweddill y seicolegwyr yn ysgwyddo mwy o'r baich.
- O safbwynt hyfforddi rhieni mewn iaith arwyddo, mae'r rhan fwyaf o rieni wedi cychwyn ar y broses cyn bod eu plant yn dechrau'r ysgol ac ychydig iawn sy'n gyfan gwbl ddibynnol ar arwyddo. Mae cefnogi plentyn hollol fyddar yn gofyn am gryn adnoddau tu allan i'r cwricwlwm.
- Mae trefn wedi bodoli lle mae yna waith ar y cyd arloesol yn digwydd rhwng Athrawon Arbenigol Iaith a Lleferydd a Therapyddion Iaith o ran darparu hyfforddiant i gymorthyddion i ddeall cyflyrrau ac anhwylderau iaith er mwyn rhoi rhaglen waith at ei gilydd. Ar ôl cyfnod o gyd-weithio buddiol a buddsoddi mewn hyfforddiant cyrhaeddwyd sefyllfa bellach lle nad oes rhagor o adnoddau hyfforddi gan y Gwasanaeth Iechyd ac mae yna frwydro dros ddiogelu'r ffordd hon o weithio. Y ddelfryd oedd ymledu'r cyd-weithio ond y risg yn yr hinsawdd sydd ohoni yw y bydd yna grebachu ar hynny.
- Cadarnheir bod yna 1.3 therapydd iaith a lleferydd yn gweithio gydag ysgolion cynradd Ynys Môn ar hyn o bryd.
- Parthed yr awgrym o ddefnyddio Seicolegwyr Addysg Saesneg lle mae'n bosibl, dywedwyd bod gwaith y Seicolegwyr yn ehangach na gweithio gyda phlant a'i fod yn golygu gweithio gyda'r athrawon gan fwyaf mewn mewn amgylchfyd yn yr ysgolion lle mae'r ethos yn bennaf Gymraeg. Felly mae yna ofynion Cymraeg pendant ynghlwm wrth y gwaith. Ceisir rhoi pob cyfle i Seicolegwyr di-Gymraeg ddatblygu a gloywi eu Cymraeg.

**Penderfynwyd –**

- **Derbyn yr adroddiad tymhorol a nodi ei gynnwys.**
- **Bod yr ohebiaeth parthed yr anawsterau trefnu hyfforddiant i Seicolegwyr Addysg yng Nghymru yn cael ei hanfon at Aelodau Seneddol Ynys Môn a Gwynedd ynghyd ag Aelodau Cynulliad Ynys Môn a Gwynedd.**

## 4. ADOLYGIAD CYLLIDEB 2013/14

Cyflwynwyd er ystyriaeth y Cyd-Bwyllgor, adroddiad gan Bennaeth Gwasanaeth Cyllid Cyngor Gwynedd yn ymgorffori cyllideb 2013/14.

Amlinellodd Uwch Gyfrifydd Addysg Cyngor Gwynedd y sefyllfa fel a ganlyn –

- Bod cyllideb 2013/14 yn ymgorffori costau cytundebau cyflogi, incrementau cyflog, addasiad yswiriant gwladol a chwyddiant ar y gyllideb am 2013/14. Mae cyfraniad Awdurdodau Gwynedd ac Ynys Môn wedi cynyddu 1.2%.
- Bod sefydliad staffio gyfredol y Cyd-Bwyllgor yn cael ei nodi isod :

  Nifer cymareb llawn amser:

  - 8.1 seicolegwyr
  - 7.6 athrawon cynhaliol
  - 6.4 staff gweinyddol

- Bod nifer o swyddi wedi bod yn wag yn ystod y flwyddyn ynghyd ag absenoldebau mamolaeth Bu anhawster darganfod staff cyflenwol. Mae'r sefyllfa hon wedi arwain at amcangyfrif o danwariant sylweddol yng nghyfrifon y Cyd-Bwyllgor eleni wedi'i ddidoli rhwng y tri tîm staff fel a ganlyn –

| | |
|---|---|
| • Seicolegwyr | £99,950 |
| • Athrawon Cynhaliol | £24,200 |
| • Staff Gweinyddol | £14,050 |
| Cyfanswm | £138,200 |



DRAFT

At hynny, rhagwelir tanwariant o oddeutu £4,520 ar gostau hyfforddi yn ddibynnol ar argaeledd cyrsiau cyn diwedd Mawrth, 2014.

- Amcangyfrifir y bydd yna orwariant o oddeutu £1,700 o dan bennawd post a lleihad o oddeutu £5,890 yn yr incwm mae'r Cyd-Bwyllgor yn ei gynhyrchu trwy ddarparu hyfforddiant a gwerthu cyhoeddiadau i ysgolion a'r Awdurdodau.
- Gyda'i gilydd golyga hyn amcangyfrif o danwariant gwerth oddeutu £135,000 yng nghyfrifon y flwyddyn ariannol gyfredol. Ar ôl ychwanegu hynny at y balansau diwygiedig sy'n cario drosodd o 2012/13, amcangyfrifir bydd cyfanswm balansau'r Cyd-Bwyllgor oddeutu £300,000 ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2013/14 sef bron i 30% o gyllideb y Cyd-Bwyllgor.
- Mae staff y Cyd-Bwyllgor ynghyd â swyddogion o'r ddau awdurdod wedi rhoi trefniadau dros dro mewn lle i atgyfnethu'r lefel staffio ac maent yn parhau i ystyried y defnydd gorau o'r balansau sydd yn weddill er budd plant ac ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn.

  Dywedodd yr Uwch Gyfrifydd y bydd llenwi'r swyddi gwag yn dod â chostau ychwanegol felly nid yw'n bosibl i'r Cyd-Bwyllgor ymrwymo'i hun i wariant mewn ffordd sy'n ddibynnol ar y balansau.

  Ystyriodd yr Aelodau'r Cyd-Bwyllgor y wybodaeth mewn perthynas â'r sefyllfa ariannol.Gwnaed awgrym y gallai rhywfaint o'r tanwariant gael ei ad-dalu i'r ddau awdurdod i fynd yn ôl i gyllideb blwyddyn nesaf.

  Dywedodd Pennaeth Addysg Cyngor Gwynedd y byddai o fantais i'r Cyd-Bwyllgor dderbyn dadansoddiad pellach o'r sefyllfa ariannol gan gynnwys y balansau i ddangos beth sy'n gyllid parhaol, y gofynion o ran llenwi swyddi a'r balans ar ôl hynny. Os gwelir bod yna swm o sylwedd yn weddill yna efallai bod yna agoriad i drafod gydag Adran Seicoleg Prifysgol Bangor y posiblirwydd o gefnogi pobl ifanc yn eu cyrsiau gyda golwg ar iddynt ystyried ymrwymo i'r ardal. Pwysleisiodd bod yma gyfle i'r Cyd-Bwyllgor fod yn rhagweithiol yn enwedig ym meysydd seicolegwyr addysg a'r athrawon arbenigol ac i edrych ar ddulliau recriwtio gwahanol yn y meysydd hyn a gweithredu mewn ffordd amgenach na hysbysebu yn unig. Dywedodd y Swyddog ei fod yn hollbwysig i'r Cyd-Bwyllgor fel cam cyntaf ddeall yn well beth sydd ganddo i'w gynnig. Mae'n rhaid archwilio opsiynau i ddenu pobl ifanc i'r proffesiwn er mwyn cynnal y gwasanaeth ac i wneud hynny mae'n rhaid bod mewn sefyllfa i egluro iddynt pa fath o gefnogaeth sydd ar gael a hynny ar sail gwybodaeth gadarn o beth sy'n gyllidol bosib.

  Ategodd Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Ynys Môn y sylwadau uchod a dywedodd bod yn rhaid yn gyntaf ddatrys y sefyllfa lle bo gofyn i ddarpar seicolegwyr sy'n dilyn cyrsiau seicoleg yn Lloegr weithio wedyn fel seicolegwyr addysg mewn awdurdod addysg neu ysgolion yn Lloegr. Awgrymodd hefyd bod lle i gryfhau proffil seicoleg addysg yn yr ysgolion.

  Awgrymodd yr Aelodau bod gofyn cynllunio'n fwriadus o fewn cyllideb y Cyd-Bwyllgor fel bo yna ddarpariaeth yn cael ei hadeiladu yn y gyllideb i'r perwyl hwn fel na bo'n rhaid tynnu ar falansau. Dygwyd sylw at y ffaith na fyddai'r balansau wedi cynyddu i'r fath raddau onibai bod yna swyddi gwag ar y sefydliad. Nodwyd ei bod yn bwysig bod yna ddapariaeth benodol yn cael ei gwneud yn y gyllideb os cytunir bod yna ffordd amgen o symud ymlaen mewn perthynas â chefnogi a recriwtio darpar seicolegwyr ac athrawon arbenigol.

  Atgoffodd yr Uwch Gyfrifydd Addysg y Cyd-Bwllgor mai arian unwaith ac am byth yw'r balansau.

  **Penderfynwyd –**

  - **Cymeradwyo a mabwysiadu'r gyllideb am 2013/14 gan nodi y ceir diweddariad pellach ynglyn â'r sefyllfa parthed defnydd o'r balansau yn y cyfarfod nesaf.**
  - **Bod y Cyd-Bwyllgor yn derbyn dadansoddiad o'r balansau i ddangos faint o gyllid sydd ar gael i'w ddefnyddio i hyrwyddo cynlluniau amgen i ddenu seicolegwyr addysg/ athrawon arbenigol i weithio yng Ngwynedd ac Ynys Môn.**

**CAM GWEITHREDU: Swyddogion y Cyd-Bwyllgor i ymgynghori i dynnu allan dadansoddiad pellach o'r sefyllfa gyllidol erbyn y cyfarfod nesaf.**

DRAFT

## 5. CYFARFOD NESAF

Nodwyd y byddai cyfarfod nesaf y Cyd-Bwyllgor yn cael ei gynnal yng Nghaernarfon am 10:30 a.m. dydd Gwener, 14 Mawrth, 2014.

**Cynghorydd Gwilym O.Jones**
**Cadeirydd**

DRAFFT

This page is intentionally left blank

**PWYLLGOR:** Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig

**DYDDIAD:** 14eg Mawrth 2014

**TEITL YR ADRODDIAD**: Adroddiad yr Uned Ddarparu AAA

**GWEITHREDU**: Ystyried yr adroddiad

**CEFNDIR**: Disgrifir gwaith Uned Ddarparu'r Cyd-Bwyllgor AAA yn ystod Tymor y Hydref 2013, a Thymor y Gwanwyn 2014

# Adroddiad yr Uned Ddarparu AAA

# Tymor y Nadolig 2013

## 1.0 Gweinyddu Prosesau Asesu ac Adolygu

Mae dau gymhorthydd clerigol wedi eu hapwyntio hyd ddiwedd Mawrth 2015 gan ddod a'r tim gweinyddol yn ôl i'w lawn gapasiti ac ysgafnhau baich sylweddol sydd wedi bod ar y gweinyddwyr hir-dymor. Diolchwn i'r gweinyddwyr am eu gwaith caled yn ystod cyfnod heriol i'r gwasanaeth.

Mae'r holl asesiadau statudol a gwblhawyd yn ystod tymor yr hydref wedi eu cwblhau oddi mewn i'r terfynnau amser ble na fu eithriadau.

Derbyniwyd nifer sylweddol o adolygiadau blynyddol eleni yn ystod misoedd Rhagfyr a Ionawr. Mae'r gwasanaeth wedi gweithredu yn glodwiw i'w prosesu yn amserol ar gyfer gosod cyllidebau i ysgolion datganoledig.

Mae datbylgiadau rhanbarthol o unioni prosesau busnes yn ymwneud a'n system gofnodion; Capita ONE yn parhau. Bydd mabwysiadu'r newidiadau arfaethedig yn sicrhau arbedion amser sylweddol i'r cymorthyddion clerigol.

Mae cynllun o fodel gwasanaeth gweinyddol newydd wedi ei chyflwyno i'r Swyddogion Cleient. Mae hyn er mwyn cyfarch yr angen i ail-strwythuro'r sefydliad Gweinyddol ar gyfer 2015-16 i adlewyrchu newidiadau i ofynion gweithredol yr Uned Ddarparu. Cymeradwywyd yr egwyddor ym mis Tachwedd.

Bydd yr Uwch Swyddog Gweinyddol dros-dro yn gadael ei secondiad a dychwelyd i'w swydd blaenorol ar y 18eg o Fawrth. Mae trefniadau mewn llaw i lenwi'r swydd tan ddiwedd Mawrth 2015 pan fydd secondiad yr Uwch Swyddog Gweinyddol yn dod i ben.

### 2.0 Gwasanaeth Athrawon Arbenigol

Ar ddechrau'r tymor, roedd trafodaethau o hyd i ystyried cyflogi athrawon newydd.  Roedd yn ymddangos nad oedd modd cwrdd ag anghenion y plant i gyd efo maint y tîm presennol, ac yn ogystal â hyn mae nifer o'n hathrawon erbyn hyn yn agosáu at oed ymddeoliad.

Penderfynwyd hysbysebu am dair swydd, sef un lawn amser mewn iaith a chyfathrebu, ac awtistiaeth, lle mae'r twf mwyaf mewn achosion wedi bod, a dwy swydd 0.6 yr un ym maes golwg, ac ym maes clyw.

Yn hanesyddol nid ydym wedi llwyddo i gyflogi athrawon cymwys sydd hefyd yn rhugl yn y Gymraeg, ac wedi cyflogi athrawon dan hyfforddiant a threfnu iddynt fynd ar gyrsiau tra'u bod yn gweithio i ni.

Felly penderfynwyd hysbysebu am athrawon cymwys, ond hefyd yn ychwanegu y byddem yn ystyried ceisiadau gan athrawon profiadol a oedd yn awyddus i hyfforddi.

Roedd y swyddi newydd am gyfnod o ddwy flynedd yn unig yn y lle cyntaf, gan na allem fod yn sicr am y sefyllfa ymhellach na hyn i'r dyfodol. Oherwydd hyn, yr oedd posibilrwydd ystyried secondiadau am y swyddi hyn.

## 3.0 Gwasanaeth Seicoleg Addysgol

Yn ystod y tymor hwn roeddem yn parhau gyda nifer sylweddol llai o seicolegwyr yn ein tîm. Roedd hyn oherwydd yr oedd dwy ar absenoldeb mamolaeth, ac roedd dau seicolegydd rhan amser wedi gadael y gwasanaeth. Roeddem yn gallu cynnig gwasanaeth i bob ysgol, ond roedd rhaid mynd i bob un yn sylweddol llai aml nag arfer.

Oherwydd hyn, cyflogwyd tair seicolegwraig gynorthwyol, i helpu llenwi'r bwlch. Nid oedd modd i un ohonynt gael ei rhyddhau o'i swydd tan Nadolig, ond cafwyd llawer o gymorth gan y ddwy arall, oedd yn gallu ein cynorthwyo gyda nifer o dasgau ac sydd wedi cychwyn gwaith yn edrych ar y gwahaniaeth yn y ddarpariaeth ym Môn a Gwynedd ar gyfer plant efo anawsterau iaith a chyfathrebu.

Mae un o'n seicolegwyr wedi cynnal cwrs i fyfyrwyr yn y brifysgol ar anawsterau iaith a chyfathrebu a sut mae hyn yn effeithio ar ymddygiad.

Mae un arall wedi cyflwyno cwrs i ysgol ynglŷn ag ymlyniad, sef anawsterau plentyn i ffurfio perthynas dda efo'i rieni.

**Y Gwasanaeth Seicoleg Addysgol o Fis Medi Ymlaen**

**Seicolegwyr Cynorthwyol**

Rydych yn ymwybodol bod tair seicolegwraig gynorthwyol yn gweithio efo'r gwasanaeth ar hyn o bryd.

Mae hyn yn bosibl oherwydd ein bod yn gweithredu efo 1.4 seicolegydd yn fyr. Dyma'r ffigurau am y cyflogau, ond wrth gwrs mae costau cyflogi ychydig yn fwy na hyn.

| | | |
|---|---|---|
| graddfa cyflog seicolegydd addysgol | cyfartaledd | cyflog 1.4 seicolegydd addysgol |
| £34 273 - £47 778 | £41 151 | £57 611 |
| graddfa seicolegydd cynorthwyol | flwyddyn gyntaf | Cyflog 3 seicolegydd cynorthwyol |
| £27 067 – £30 377 | £27 067 | £81 201 |

Felly, eleni, rydym yn defnyddio £23 590 yn ychwanegol i arian arferol y gwasanaeth seicolegol. Mae cytundeb y tair yn dod i ben yn yr haf.

Rydym wedi gwneud y trefniant hwn oherwydd nad ydym wedi bod yn llwyddiannus wrth geisio cyflogi seicolegwyr newydd i'r gwasanaeth.

Mae gweithio fel seicolegydd cynorthwyol yn gam yn y broses o hyfforddi fel seicolegydd addysgol. Rydym felly eisiau eu hyrwyddo yn eu hymdrechion i hyfforddi ymhellach, ac yn awyddus i ystyried eu cyflogi wedi iddynt gymhwyso.

**Cyrsiau Hyfforddiant Proffesiynol**

Fel y byddwch yn cofio o'r cyfarfod diwethaf, yr oedd yr unig gwrs hyfforddi yng Nghymru, ym Mhrifysgol Caerdydd, wedi cau. Mae bellach wedi ail-agor, yn dilyn i nifer o wasanaethau ac awdurdodau, yn cynnwys y Cyd-Bwyllgor, gysylltu â'u haelodau etholedig, yng Nghaerdydd a San Steffan. Mae diolch mawr i'n cadeirydd, Mr Gwilym O Jones, am ei barodrwydd i helpu gyda hyn.

Mae hyn yn golygu bod modd i'r seicolegwyr cynorthwyol wneud cais i fynd ar y cwrs o Fis Medi ymlaen.

Maen nhw hefyd wedi gwneud cais i fynychu cyrsiau yn Lloegr, ac yr unig gwrs yn yr Alban eleni, ym Mhrifysgol Dundee.

**Cais i'r Cyd-Bwyllgor Ystyried, i Hyrwyddo Hyfforddi Seicolegwyr**

Rydym yn gwneud cais i'r Cyd-Bwyllgor ystyried y cynllun a amlinellir yma, a fyddai'n sicrhau cefnogaeth i'r seicolegwyr cynorthwyol fynd ar gwrs hyfforddiant proffesiynol, a'n galluogi ni i sicrhau gwasanaeth seicoleg addysgol priodol i'n hysgolion ni i'r dyfodol.

Cynigir i ni hysbysebu dwy swydd seicolegydd tan hyfforddiant, i gychwyn ym Medi 2014, wedi i'r tair swydd seicolegydd cynorthwyol ddod i ben.

Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn mynychu cwrs, un ai yng Nghaerdydd, am dair blynedd, neu yn yr Alban, am ddwy flynedd, a byddant yn gweithio i'r Cyd-Bwyllgor wedyn ar delerau 0.8 llawn amser.

Dyma'r gost y flwyddyn o gynnal seicolegydd tan hyfforddiant, yn nhermau cyflog a ffioedd.

Byddai angen i'r Cyd-Bwyllgor dalu cyflog a ffioedd yn yr Alban, am ddwy flynedd y cwrs.

Yng Nghymru mae'r ffioedd yn cael ei dalu, ond bod angen i'r myfyrwyr dalu ffi 'ychwanegol' (*supplementary*) gan nad yw'r arian mae'r Llywodraeth yn ei roi i'r brifysgol yn hollol ddigonol. Byddai'r Cyd-Bwyllgor yn talu hyn, a hefyd yn ychwanegu at y bwrsari mae'r myfyrwyr yn ei gael, i ddod ag o i lefel cyflog seicolegydd tan hyfforddiant.

Yr Alban

| graddfa cyflog seicolegydd tan hyfforddiant | flwyddyn gyntaf | ffi prifysgol Dundee | Cost y flwyddyn gyntaf |
|---|---|---|---|
| £22 019 - £30 075 | £22 019 | £9 500 | £31 519 |
| | Ail flwyddyn | ffi prifysgol Dundee | Cost yr ail flwyddyn |
| | £23 631 | £9 500 | £33 131 |

Caerdydd

| graddfa cyflog seicolegydd tan hyfforddiant £22 019 - £30 075 | Ffioedd 'ychwanegol' | Bwrsari prifysgol Caerdydd | Cost i'r Cyd-Bwyllgor |
|---|---|---|---|
| Flwyddyn gyntaf £22 019 | £4 000 | £12 800 | £13 219 |
| Ail flwyddyn £23 631 | £2 000 | £12 800 | £12 831 |
| Trydedd flwyddyn £25 241 | £2 000 | £12 800 | £14 441 |

Mae hyn yn golygu byddai'r Cyd-Bwyllgor yn talu'r costau isod.

| | |
|---|---|
| 1. Dau seicolegydd yn mynd i'r Alban | £63 038 y flwyddyn gyntaf<br>£66 262 yr ail flwyddyn |
| 2. Dau seicolegydd yn mynd i Gaerdydd | £26 438 y flwyddyn gyntaf<br>£25 662 yr ail flwyddyn<br>£28 882 y drydedd flwyddyn |
| 3. Un yn mynd i'r Alban ac un yn mynd i Gaerdydd | £44 738 y flwyddyn gyntaf<br>£45 962 yr ail flwyddyn<br>£14 441 y drydedd flwyddyn |

Gwelir bod yr rhan fwyaf o'r uchod yn llai na'r arian a fyddai, fel arall, wedi mynd i gyflogi 1.4 seicolegydd llawn, ac nad yw'r lleill yn llawer uwch.

Bydd cymal yn eu cytundebau er mwyn sicrhau y byddent yn talu'r arian yn ôl pe na baent, am ryw reswm, yn parhau i weithio i'r Cyd-Bwyllgor yn y dyfodol.

**Y Seicolegydd Cynorthwyol Arall**

Byddwch wedi sylwi ein bod yn cynnig i'r Cyd-Bwyllgor ystyried cynnal dwy seicolegwraig tan hyfforddiant yn unig ar gwrs, a'u cyflogi wedyn fel seicolegwyr 0.8 llawn amser. Mae hyn oherwydd nad oes gennym gyllid i'n galluogi i gyflogi mwy na hyn, sef cyfanswm o 1.6 seicolegydd llawn amser.

Efallai byddai’r seicolegwraig arall wedi cael lle ar gwrs yn Lloegr, (lle na fyddai’n ymarferol i ystyried eu cynnal ar y cwrs) neu yng Nghaerdydd, ac yn gallu gadael ein cyflogaeth ni a mynychu’r cwrs hwnnw, gan dderbyn y bwrsari arferol.

Neu, byddai’n bosibl i barhau i’w chyflogi am flwyddyn arall fel seicolegwraig gynorthwyol, iddi wneud cais arall am gwrs hyfforddiant ym mhen blwyddyn.

Gareth Payne
Prif Seicolegydd Addysgol Gweithredol

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig** |
| DYDDIAD | **14 Mawrth 2014** |
| TEITL YR ADRODDIAD | **Cyllideb 2014/2015** |
| ADRODDIAD GAN | **Pennaeth Gwasanaeth Cyllid** |

---

**<u>Cyllideb 2014/2015</u>**

Mae'r gyllideb yn ymgorffori cost cytundebau cyflog, incrementau cyflogau, addasiad yswiriant gwladol a chwyddiant am 2014/15 - cynnydd o 0.99% i gyfraniadau cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn.

Mae cost net y gyllideb o £1.2miliwn yn cael ei gyllido trwy gyfraniad o 61.37% i Wynedd £738,150 a 38.63% i Ynys Môn £464,637.

Nid yw'r Cyd-Bwyllgor Angehnion Addysgol Arbennig yn wynebu toriad cyllidol ar gyfer 2014/15.

**Argymhelliad**

Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor gymeradwyo a mabwysiadu'r gyllideb am 2014/2015.

# CYD-BWYLLGOR ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

## CYLLIDEB 2014/2015

| | strwythur staffio Ebrill 2014 | Cyllideb 2013/2014 £ | chwyddiant a chostau eraill £ | Cyllideb 2014/2015 £ |
|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | | |
| Gweithwyr | | | | |
| Cyflogau | | | | |
| - Seicolegwyr | (8.1) | 521,490 | 2,750 | 524,240 |
| - Athrawon Cynhaliol | (7.6) | 379,710 | 2,594 | 382,304 |
| - Gweinyddol | (6.4) | 185,520 | 5,713 | 191,233 |
| Hyfforddiant | | 9,520 | 0 | 9,520 |
| Yswiriant Atebolrwydd | | 2,720 | 370 | 3,090 |
| Adeilad | | | | |
| Trethi | | 4,760 | 90 | 4,850 |
| Rhent a Gwasanaethau | | 10,960 | 330 | 11,290 |
| Cludiant | | | | |
| Costau Teithio | | 50,780 | 0 | 50,780 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | | | | |
| Adnoddau / Deunydd Swyddfa | | 17,480 | 0 | 17,480 |
| Ffôn | | 8,600 | 180 | 8,780 |
| Post | | 1,800 | 40 | 1,840 |
| Costau Canolog Ynys Môn | | 1,630 | 0 | 1,630 |
| Costau Canolog Gwynedd | | 4,860 | 50 | 4,910 |
| **Cyfanswm Gwariant** | | 1,199,830 | 12,117 | 1,211,947 |
| **Incwm** | | | | |
| Incwm Allanol | | 8,890 | 270 | 9,160 |
| Cyfraniad Cyngor Gwynedd | | 730,880 | 7,270 | 738,150 |
| Cyfraniad Cyngor Sir Ynys Môn | | 460,060 | 4,577 | 464,637 |
| **Cyfanswm Incwm** | | 1,199,830 | 12,117 | 1,211,947 |
| **Cyfanswm Gwariant Net** | | 0 | 0 | 0 |